

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg Ionawr 2023

Presennol– Mari E M Mathews Cadeirydd, Catherine Williams, Ffiona Jones, Neil Pringle Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Janet Charlton, Anna Brown.

Datgan diddordeb - Bu I Mari E M Mathews ddatgan diddordeb yn cofnod [2.4 d] a ni cymerodd unrhyw ran yn yn y drafodaeth

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Ragfyr 2022.

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerch at yr adroddiad canlynol gan SCHG Peter Jones;

[a] Lladrata o siop Cotswolds, dim tystiolaeth o'r camerau cylch agos, dim manylion o'r lladron ar gael

[b] Ymddygiad gwrth gymdeithasol. Sylwadau personol wedi ei gwneud ynglun Gwesty Pont-y-Pair ar y cyfryngau cymdeithasol, Y mater yn parhau

[c] Y clerch i geisio diweddariad gan y Prif Arolygwr Jeff Moses i gais gan y Cyngor ar gyfer gwneud penodiad SCHG i'r pentref/gymuned

[1.1] Pont Droed/ Pont-y-Pair

Penderfynwyd i geisio dau amcan bris ychwanegol ar gyfer astudiaeth dichonoldeb

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts bod Grwp Cynefin yn parhau ymlaen gyda'r mater.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Deallwyd nad iw'r tenant yn bwriadu parhau ymlaen gan fod costau o ddeutu £15,000 atgyweirio'r caffi.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn trefnu dogfen ar gyfer ceisio pris astudiaeth dichonoldeb.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Dyn mewn Fan

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 16eg Chwefror am 10.00 y bore yn y Neuadd Goffa.

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Eglurodd y Cyng E Roberts ei bod yn bwriadu cysylltu gyda Richard Thomas APCE ynglun a statws y bont yn yr ardal cadwriaeth.

[1.8] Holiadur Cymuned/ Swyddog Rheoli Prosiect

Rhoddyd sylw i ddogfen disgrifiad swydd a baratowyd gan y Cadeirydd

[1.9] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Fense

Dywedodd y clerc nad oedd pris wedi ei dderbyn ar gyfer gwneud y gwaith.

[2] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[2.1] Hen Eglwys Saint Mihangel

Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton i gael golwg.

[2.2] Mynwent Erw Hedd

Y clerc i drafod y mater ymhellach gyda'r Cyng Neil Pringle.

[2.3] Canolfannau Clyd

Dywedodd y clerc bod y grant wedi ei wneud i Eglwys Santes Fair tuag at ddarparu canolfan glyd

Y Brif Agenda

[2.4] Materion Cynllunio

[a] Adeiladu estyniad llawr cyntaf i garej unllawr arwahan. Gwynant Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad.

[b] Adeiladu tŷ fforddiadwy newydd a gosod gwarediad dwr budr cysylltiedig. Fferm yr Hendre, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd cefnogi'r cais yn amodol i drefniant boddhaol i warediad dwr budr.

[c] Trosi ac ymestyn adeilad allanol i greu uned wyliau tymor byr. Adeilad allanol Craig Glanconwy, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd cyfeirio'r cais i Bwyllgor Cynllunio'r Parc Cenedlaethol.

[d] Dileu amod Rhif 4 i ganiatâd Cynllunio NP4/11/76T 09/04/2021 er mwyn caniatáu defnydd parhaol o adeilad fel man arlwyio awyr agored. Gwesty'r Glan Aber, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd gohirio ymateb hyd nes diwedd y cyfnod ymgynghori.

[2.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Rhagfyr 2022

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod mis Rhagfyr 2021.

[2.6] Gohebiaeth Mr Gareth Jones

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Mr Jones i drafod y materion a godwyd

[2.7] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair

Deallwyd gan Roberts y byddai'r gwelliannau yn debygol o ddechrau yn y flwyddyn newydd ond yn amodol ar y tywydd.

[2.8] Ystafelloedd newid/ Cae Llan

Cyfeiriodd y clerc at sylwadau gan Ms Carol Blain yn amlinellu cyflwr yr adeilad. Y clerc i geisio amcan bris Ms Blain ar gyfer atgyweirio

[2.9] Astudiaeth Ecolegol/ Goleuadau Ychwanegol Stryd y Felin

Penderfynwyd gohirio'r mater.

[3] Cynllun Grantiau Dadgarboneiddio Cynaliadwy Ardaloedd Cadwraeth Parc Cenedlaethol Eryri

Nodwyd y wybodaeth gan Elen Hughes APCE

[3.1] Ymddeoliad y Clerc

Dywedodd y clerc ei fod yn bwriadu ymddeol yn niwedd Mawrth 2023

Mari E N Mathews, Cadeirydd